Swydd	**Cyfarwyddwr Cenedlaethol, Cymru**
Math o swydd	Llawn amser, cytundeb parhaol
Cyflog	Graddfa gyflog £45,000-£50,000 (Mae Live Music Now yn gweithredu fframwaith ar sail cymhwysedd yn hytrach na fframwaith ar sail profiad)
Dechrau	O fis Ionawr 2023
Lleoliad	Mae'r rôl yn gweithredu ar draws Cymru gyfan. Bydd angen gweithio'n rheolaidd (un diwrnod bob 2/3 wythnos) yn y swyddfa yng Nghaerdydd gyda thîm llawn Cymru. Mae'r rôl hon yn addas ar gyfer gweithio gartref neu gellir trefnu desg y tu allan i Gaerdydd.
I Ymgeisio	• A fyddech chi cystal ag uwch lwytho llythyr eglurhaol yn y Saesneg sy'n amlinellu sut rydych chi'n cyflawni'r meini prawf a'ch CV, i'r ddolen hon: https://www.surveymonkey.co.uk/r/NatDirLMNWales erbyn **23:59 dydd Sul 25 Medi 2022.** • Cofiwch gynnwys enwau a manylion cyswllt dau ganolwr a all fynegi barn arnoch mewn swydd broffesiynol gyda chyfeiriad sy'n dweud pa mor hir ac ym mha swydd y maen nhw wedi eich adnabod (ni fyddwn yn cysylltu â chanolwyr cyn y cyfweliad). • Os hoffech gyflwyno eich cais mewn fformat arall, byddem yn falch o dderbyn hwnnw. Cofiwch gysylltu â'r swyddfa ar 020 7759 1803 neu anfon e-bost at emily.roberts@livemusicnow.org.uk er mwyn trefnu trafod dulliau eraill o gyflwyno'ch cais.
Dyddiad cau	23:59 dydd Sul 25 Medi 2022
Rhybudd o restr fer	Wythnos yn dechrau 3 Hydref 2022
Cyfweliadau	• Rownd gyntaf ar-lein dros zoom. Ail rownd i ddigwydd yn fyw yng Nghaerdydd. • Cyfweliad 1af: wythnos yn dechrau 10 Hydref 2022; 2il gyfweliad: wythnos yn dechrau 17 Hydref 2022. • Cofiwch ddweud yn eich llythyr eglurhaol os **NAD** ydych ar gael yn ystod y cyfnod hwn neu os ydych angen cymorth ychwanegol yn y cyfweliad.
Hysbysu	Yn anffodus, ni allwn ddarparu adborth heblaw eich bod ar y rhestr fer. Byddwn yn eich hysbysu i roi gwybod i chi a ydych ar y rhestr fer ai peidio.
Iaith	• Oherwydd natur y swydd, mae angen bod yn fedrus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg i leiafswm Lefel 3 (gweler matrics sgiliau iaith Gymraeg). Bydd hyn yn cael ei brofi yn y cyfweliad. • Dylai ymgeiswyr lefel 3 fod yn barod i barhau gyda'i dysgu Cymraeg gan y bydd y swydd yn gofyn am gyfathrebu rheolaidd a pharhaus ar draws sawl llwyfan yn y Gymraeg.
	• Mae Live Music Now wedi ymrwymo i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac, oherwydd hyn, rydyn ni'n annog yn weithredol derbyn ceisiadau gan bobl sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector diwylliannol a'n sefydliad gan gynnwys y rhai sy'n wynebu rhwystrau neu sydd wedi cael profiad o hiliaeth. • Bydd pob ymgeisydd anabl sy'n cyflawni'r meini prawf hanfodol yn cael cyfweliad. Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael y cyfle i drafod eu gofynion mynediad i'r cyfweliad. • Mae LMN yn gyflogwr hyblyg a goddefgar; yn cefnogi gweithio hyblyg gan gynnwys i gweithio o bell/ gartref.

	Os byddwch chi angen cwblhau'r ffurflen gais ar-lein, neu os hoffech chi gyflwyno eich ymatebion mewn fformat gwahanol, gallwch anfon e-bost at emily.roberts@livemusicnow.org.uk neu ffonio 020 7759 1803.

1) Live Music Now

Elusen yw Live Music Now sydd wedi bod yn gweithio ac yn ymgyrchu ers 1977 i greu effaith cymdeithasol cynhwysol, mesuradwy drwy gerddoriaeth. Drwy harneisio pŵer cysylltiol cerddoriaeth a gwerthuso ei effaith, rydyn ni'n datblygu arfer cerddorol ac yn newid sut rydyn ni'n deall ac yn cefnogi pobl sy'n cael eu tangynrychioli a rhai bregus yn ein cymdeithas. Mae ein gwaith yn gwella ansawdd bywyd, iechyd a llesiant ac yn hybu cyfartaledd cyfle drwy gydnabod potensial creadigol pob unigolyn.

Yn greiddiol i'n theori newid yw'r ymrwymiad i **gyflenwi effaith cymdeithasol drwy gerddoriaeth.** Rydyn ni'n creu'r effaith cymdeithasol hwnnw drwy gerddorion yr ydyn ni'n eu hystyried fel ein partneriaid mwyaf gwerthfawr a'n hased mwyaf. Rydym hefyd yn ceisio gwasanaethu'r angen cynyddol gan gymunedau sy'n wynebu gwaharddiad cymdeithasol ac anfanteision.

Rydyn ni'n cyflawni hyn drwy dri ymrwymiad:

1. Cefnogi bywydau cerddorol pobl sy'n profi anfantais a gwaharddiad cymdeithasol
2. Datblygu a chefnogi gweithlu o gerddorion proffesiynol i sicrhau safon arfer, delio â than-gynrychiolaeth drwy greu llwybrau cynhwysol i yrfaoedd dichonadwy a sicrhau'r deilliannau gorau ar gyfer y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.
3. Eirioli a rhoi tystiolaeth o fuddiannau trawsffurfiol cerddoriaeth fyw ar ddysgu, datblygu, iechyd a llesiant.

Rydyn ni'n cyflogi ac yn hyfforddi dros 300 o gerddorion proffesiynol i weithio gyda phobl hŷn (nifer yn byw gyda dementia), plant a phobl ifanc (CYP) sy'n wynebu rhwystrau anabledd, blynyddoedd cynnar a theuluoedd, gofalwyr a gweithwyr allweddol sy'n cefnogi eiriol.

Mae ein gwaith yn cyrraedd dros 85,000 o bobl, yn fyw ac ar-lein, yn perfformio, yn cydweithio ar ac yn creu cerddoriaeth drwy sesiynau 1:1 a grŵp, trigolion mewn cartrefi gofal, ysgolion arbennig ac ysbytai a chyngherddau. Mae ein gwaith yn helpu cyfranogwyr i gyfathrebu a gwneud cysylltiadau cymdeithasol, datblygu sgiliau a chynyddu hyder a gwytnwch.

Tanategir ein rhaglenni drwy waith ymchwil a phartneriaethau traws-sector ar draws Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon ac yn rhyngwladol. I gael mwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan.

2) **Strwythur Cyfundrefnol**

Mae Live Music Now yn gweithredu ar draws y DU gydag ymagwedd ar draws y tair gwlad - Cymru, Lloegr ac Iwerddon. Mae gennym chwaer-sefydliad yn Yr Alban ac rydym yn cydweithio'n rhyngwladol gyda sefydliadau annibynnol Live Music Now yn Ewrop a thu hwnt.

Mae tîm o Gyfarwyddwyr Strategol yn arwain datblygiad gwaith LMN ym meysydd Gofal Cymdeithasol Oedolion, Gofal Iechyd, Plant a Phobl Ifanc a Datblygiad Cerddorion. Mae'n cael ei gyflwyno drwy rwydwaith o dimau ar draws y DU. Mae pob tîm yn cael ei gynnal gan Gyfarwyddwr sy'n adrodd yn ôl i'r Cyfarwyddwr Gweithredol. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol yn adrodd yn ôl i'r Prif Weithredwr sydd yn ei dro/thro yn adrodd yn ôl i'r Cadeirydd a'r Bwrdd o Ymddiriedolwyr.

3) Swydd Cyfarwyddwr Cenedlaethol, Live Music Now Cymru

Mae hon yn rôl weithredol o fewn Live Music Now. Mae'n darparu swydd gyffrous a boddhaus gyda chyfleoedd arwyddocaol i adeiladu ar a chryfhau llwyddiannau Live Music Now Cymru hyd yn hyn. Mae Ymddiriedolwyr Live Music Now wedi gosod cynllun uchelgeisiol i sicrhau twf drwy'r Bwriad Strategol newydd ac maen nhw'n awyddus i weld Live Music Now Cymru yn datblygu'n economaidd ac mewn dylanwad ar draws Cymru a gweddill y DU.

Rydyn ni'n chwilio am unigolyn uchelgeisiol hynod awyddus i'n cynorthwyo i sicrhau twf cynaliadwy yng Nghymru ac ar draws y DU. Mae dealltwriaeth ddofn o Gymru a'r materion cymdeithasol sy'n bodoli yn y wlad yn hanfodol ac wrth i ni geisio lledaenu ein gwaith ar draws y wlad, mae angen y gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Nid yw profiad blaenorol mewn cerddoriaeth na diwylliant yn angenrheidiol ond rhaid i ymgeiswyr fod yn angerddol ac yn wybodus ynglŷn â pham mae cerddoriaeth cystal cyfrwng effeithlon ar gyfer newid.

Bu Live Music Now yn gweithio yng Nghymru ers 1990 gan gynnig dros 10,000 o berfformiadau ers hynny ac, yn awr, ar gyfartaledd, yn cyflwyno 650 o sesiynau cerddorol yn flynyddol ac yn gweithio ym mhob un o'r 22 sir yng Nghymru. Mae'r tîm o staff yn cynnwys dau Uwch Reolwr Prosiect, cydlynydd prosiect (swydd wag ar hyn o bryd) ac mae'r swyddfa wedi'i lleoli ym Mae Caerdydd. Mae Live Music Now Cymru'n falch o fod yn sefydliad portffolio sy'n derbyn cyllid blynyddol gan Gyngor Celfyddydau Cymru a chynhelir cyfarfodydd rhyngddyn nhw'n flynyddol i drafod gweithgareddau a chytuno ar dargedau ar gyfer y flwyddyn ddilynol.

Mae gan Live Music Now Cymru nifer o berthnasau hir sefydledig gyda sefydliadau eraill sy'n cynnwys Arts Care Gofal Celf yng Ngorllewin Cymru, awdurdodau lleol, Celf a Busnes Cymru a gwyliau mawr. Mae'n gyson yn ceisio adeiladu ar y rhain a sefydlu partneriaid newydd. Mae LMN Cymru hefyd yn aelod o'r Fforwm Partneriaeth Cerddoriaeth Cymru sydd newydd ei ffurfio.

Ar hyn o bryd, mae dros 50 o gerddorion ar y cynllun o neu'n byw yng Nghymru ac mae LMN Cymru'n aml yn gwahodd cerddorion o rannau eraill o'r DU i weithio mewn ardal benodol. Mae gan y gangen restr o alumni enwog sydd wedi cadw perthynas gadarn gyda'r cynllun. Mae gan y gangen genedlaethol hon Bwyllgor Cynghori brwdfrydig a chefnogol gyda phedwar ohonyn nhw'n eistedd ar yr Is Bwyllgor Codi Arian.

4) Prif Gyfrifoldebau

- Arweinyddiaeth i sicrhau datblygiad strategol y sefydliad yng Nghymru gan gynnwys rheoli a chefnogi tîm staff Cymru;
- Arolygiaeth ariannol o weithrediadau Cymru gan gynnwys cyllido cenedlaethol a phrosiectau a llif arian Cymru, monitro ac adrodd yn ôl;
- Gweithredu'r strategaeth codi arian gan gynnwys y Prif Swyddog Gweithredol, y Cyfarwyddwr Datblygu ac Ymddiriedolwr Cymru ar Fwrdd Live Music Now er mwyn cefnogi'n llwyr gostau craidd y sefydliad;
- Hybu'r sefydliad i grwpiau prif randdeiliaid a phartneriaid;
- Arwain ar draws y sefydliad fel aelod o'r Uwch Dîm Rheoli gan weithio i sicrhau Bwriad Strategol Live Music Now a'r trosiant blynyddol;
- Adrodd yn ôl i Bwyllgor Ymgynghorol Cymru a Bwrdd Ymddiriedolwyr y DU ar ran y genedl.

Mae'r gwaith wedi'i rannu i'r categorïau canlynol:

Llywodraethu

- Sicrhau cyflawni amcanion Live Music Now drwy weithredu ac adolygiad treigl o Gynlluniau Busnes y DU a Chymru.

- Sicrhau bod gweithgareddau Cymraeg Live Music Now yn cydymffurfio â rheoliadau cyfreithiol ac arfer gorau'r sector.
- Adrodd yn ôl yn rheolaidd i Gyngor Celfyddydau Cymru a phrif arianwyr eraill
- Gweithio gyda'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli i ddarparu cefnogaeth i ddatblygu'r Bwrdd Ymddiriedolwyr gan gynnwys recriwtio Ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor Cymraeg.

Cyllid/ Gweithrediadau

- Creu a chyflwyno cyllideb flynyddol a strategaeth codi arian ar gyfer Live Music Now Cymru
- Creu a chyflwyno cyllidebau ychwanegol a chynlluniau busnes ychwanegol yn ôl y gofyn gan y Bwrdd neu arianwyr cyhoeddus gan sicrhau eu bod yn cael eu monitro a'u diweddaru'n briodol.
- Sicrhau bod systemau cyfrifo'r gangen yn cael eu cynnal yn gywir ac yn unol â gofynion archwilwyr a benodwyd gan Live Music Now.
- Cyfrifoldeb dros gyfrif banc Cymru.
- Sicrhau bod y prosesau a'r systemau yn cydymffurfio ac yn addas i'w pwrpas gan weithio ar draws y sefydliad i weithredu gwelliannau ac effeithlonrwydd.

Codi arian

- Arwain i godi arian ar gyfer costau craidd y gangen drwy waith ymchwil, datblygu a chyflwyno ceisiadau grant i ystod o arianwyr cyhoeddus, ymddiriedolaethau a sefydliadau a sicrhau stiwardio rhoddwyr unigol.
- Gweithio gyda'r Prif Swyddog Gweithredol i osod targedau twf ar gyfer Live Music Now Cymru, gan reoli twf uchelgeisiol drwy ddatblygiad cynaliadwy'r sefydliad.
- Gweithredu strategaeth codi arian sefydliadol gan weithio gyda'r Cyfarwyddwr Datblygu.
- Cynnal a datblygu perthnasoedd gyda phrif roddwyr (gan gynnwys cyrff cyhoeddus, rhoddwyr unigol ac ymddiriedolaethau a sefydliadau).
- Cefnogi tîm Live Music Now Cymru wrth ddyfeisio mentrau newydd a llunio cynigion prosiectau llawn dychymyg ac wedi'u cyllido'n ofalus.
- Cynyddu Cronfeydd Live Music Now Cymru nad sydd wedi'u cyfyngu yn unol â pholisi a thargedau cronfeydd sefydliadol.

Datblygu Grŵp Buddiolwyr

- Mewn ymgynghoriad gyda Chyfarwyddwyr Strategol y Grŵp Buddiolwyr, cefnogi gweithredu strategaeth ar gyfer datblygu Live Music Now drwy brosiectau fflaglong, alinio'r sefydliad gyda phrif bartneriaid a mentrau yng Nghymru gan geisio mwyhau effeithlonrwydd drwy gydweithio.
- Mewn cydweithrediad gyda'r Prif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwyr Datblygu a Strategol, cefnogi broceriaeth partneriaethau gan ymgynghori'n llawn gydag asiantaethau cenedlaethol a rhanbarthol i annog ymglymiad gyda'r sefydliad ar lefel strategol a datblygu llif incwm amrywiol.
- Mewn cydweithrediad gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol, y tîm o staff, partneriaid a mentoriaid alumni, sicrhau mynediad o safon uchel gyson i'r cynllun ar draws Cymru.

Eiriolaeth/Cyfathrebu

- Eiriol dros a chodi ymwybyddiaeth Live Music Now gyda'r cyfryngau yng Nghymru, arianwyr allanol, rhanddeiliaid, y gymuned a chefnogwyr.
- Cynrychioli Live Music Now mewn digwyddiadau cyhoeddus, cynadleddau a symposia i rannu effaith ymagwedd unigryw Live Music Now at ddatblygiad ac ymestyn cerddorion.
- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Datblygu a'r Ymgynghorydd Cyfathrebu wrth ddatblygu a dosbarthu deunyddiau eiriol (digidol ac ar bapur) yn unol â Strategaeth Marchnata Live Music Now.
- Cefnogi Pwyllgor Cymru wrth drefnu digwyddiadau cyhoeddus i godi proffil a chefnogi codi arian ar gyfer Live Music Now.

Rheolaeth/Gweinyddiaeth

- Mewn ymgynghoriad gyda'r Prif Swyddog Gweithredol, y Cyfarwyddwr Gweithredol a Chadeirydd Pwyllgor Cymru, sicrhau bod strwythur y sefydliad yn briodol i anghenion ac adnoddau'r sefydliad.
- Rheoli llinell yr Uwch Reolwyr Prosiectau yng Nghymru ac arolygu tîm Cymru.
- Recriwtio a rheoli'r tîm o staff yn ôl y gofyn gan gynnwys adolygiadau blynyddol, gwerthusiadau a Chymorth Adnoddau Dynol.
- Sicrhau bod y prosesau mewnol yn addas i bwrpas gyda chymorth Rheolwr Gweithrediadau'r DU.

Gofynion Cyffredinol

- Cyfranogi mewn hyfforddiant a briffio gwybodaeth a chynnal gwybodaeth ddiweddar y sector.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill yn unol â cheisiadau gan y Prif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwr Gweithredol neu Gadeirydd Pwyllgor Cymru sy'n berthnasol i'r swydd hon.

5) Telerau ac Amodau

Mae cytundeb y rôl hon yn barhaol ar raddfa gyflog Cyfarwyddwr Strategol o £45,000-50,000 (mae symudiad o fewn y raddfa'n ddibynnol ar adolygiad ar sail cymhwysedd mewn asesiad).

a) Mae'r penodiad yn nodi bod angen:
   i) Tri mis o rybudd o derfyniad o'r ddwy ochr.
   ii) Cyfnod prawf o chwe mis.
b) Gweithio min nos neu benwythnos weithiau os bydd angen. Nid oes tâl goramser ond gellir trefnu cael amser i ffwrdd yn lle hynny.
c) Lleolir y Swyddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Yr oriau craidd yw rhwng 10am a 3pm a disgwylir i uwch staff fod ar gael yn ystod yr amser hwn. Mae Live Music Now yn cynnig trefniadau gweithio hyblyg er ein bod yn rhagweld y bydd yn rhaid i Gyfarwyddwr Cenedlaethol Cymru weithio o'r swyddfa am gyfran o'i amser/hamser tra hefyd bod yn barod i weithio o gartref, teithio o gwmpas Cymru ac weithiau ar draws y DU.
d) Mae Live Music Now yn darparu cynllun pensiwn i bob aelod cymwys o staff, wedi cwblhau cyfnod prawf yn llwyddiannus. Telir drwy'r system gyflogau. Mae'r sefydliad yn gwneud cyfraniad o 3% o'r cyflog i'r cynllun wedi cwblhau'r cyfnod prawf.

Cyfle Cyfartal

Mae Live Music Now wedi ymrwymo i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac felly rydym yn annog ceisiadau gan bobl sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector diwylliannol a'n sefydliad gan gynnwys y rhai sy'n wynebu rhwystrau anablu neu sydd wedi profi hiliaeth.

Bydd pob ymgeisydd anabl sy'n cyflawni'r meini prawf hanfodol yn cael cyfweliad. Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael y cyfle i drafod eu gofynion mynediad i'r cyfweliad.

Mae Live Music Now yn gyflogwr hyblyg ac un sy'n hwyluso; cefnogir gweithio hyblyg yn llwyr gan gynnwys o bell/ o gartref.

Os byddwch chi angen cymorth i gwblhau'r ffurflen gais ar-lein, neu os hoffech gyflwyno eich ymatebion mewn fformat gwahanol, gallwch anfon e-bost at emily.roberts@livemusicnow.org.uk neu ffonio 020 7759 1803.

Nodiadau

Gellir newid pob swydd o bryd i'w gilydd a bydd y disgrifiad swydd hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae'r disgrifiad swydd yn arweiniad i'r gwaith y disgwylir i chi ei gyflawni ac mae'n cynrychioli ystod o gyfrifoldebau yn unol â graddfa'r swydd.

Cyfarwyddwr Cenedlaethol Cymru - Manyleb bersonol

	Hanfodol	Dymunol	Aseswyd
Profiad/ Cymhwysedd			
Tair blynedd o leiaf o brofiad o reoli sefydliad, adran neu brosiect mawr celfyddydol/effaith cymdeithasol/trydydd sector llwyddiannus. Neu brofiad trosglwyddadwy drwy waith mewn gofal iechyd neu ofal cymdeithasol gyda dealltwriaeth gadarn o arfer y trydydd sector.	x		Cais a chyfweliad
Cymhwysedd y gellir ei ardystio mewn rheoli a datblygu partneriaethau newydd gyda sefydliadau eraill yn y sectorau diwylliannol, effaith cymdeithasol, addysg neu iechyd.	x		Cais a chyfweliad
Prawf o allu i godi arian a phrofiad mewn meithrin perthnasoedd da gyda chyrff ariannu presennol a phosibl.	x		Cais a chyfweliad
Prawf o gymhwysedd i ddatblygu refeniw a enillwyd	x		Cais, prawf a chyfweliad
Gallu i ddatblygu a chyflenwi prosiectau a rhaglenni yn unol â strategaeth sefydliadol	x		Cais, prawf a chyfweliad
Profiad o reoli staff cefnogi.	x		Cais
Sgiliau/cymhwysedd			
Sgiliau sefydliadol a rheoli prosiectau y gellir eu profi.	x		Cais a chyfweliad
Effeithlonrwydd wrth reoli systemau rheoli swyddfa.	x		Cais
Uwch sgiliau TG swyddfa (office suite ac adobe)	x		Cais
Sgiliau sefydliadol a rheoli amser rhagorol ynghyd â sgiliau geiriol ac ysgrifennu o'r radd flaenaf	x		Cais, prawf a chyfweliad
Gwybodaeth am sut i drefnu digwyddiadau codi arian		x	Cais
Siarad Cymraeg - lleiafswm Lefel 3	x		Cais, prawf a chyfweliad
Cyllid/ Strategaeth			
Gallu ariannol cryf a sgiliau dadansoddi	x		Cais, prawf a chyfweliad
Profiad o osod, rheoli ac adrodd yn erbyn cyllidebau	x		Cais a Chyfweliad
Gallu i ddatblygu a chymhwyso strategaethau cenedlaethol i gyd-destun Cymru	x		Cais a Chyfweliad

Gwybodaeth ac ymagwedd			
Dealltwriaeth o fuddiannau emosiynol, addysgol, cymdeithasol a therapiwtig y celfyddydau	x		Cais a Chyfweliad
Gwybodaeth eang am gerddoriaeth		x	Cais
Ymrwymiad cryf i ddatblygu mynediad i ddiwylliant ar gyfer pobl dan anfantais	x		Cais a Chyfweliad
Gwybodaeth a dealltwriaeth o ariannu'r sector diwylliannol a systemau ariannu eraill	x		Cais, prawf a chyfweliad
Ystod eang o gysylltiadau o fewn y sector diwylliannol/ sector iechyd/ sector addysg yng Nghymru (yn arbennig Cyngor Celfyddydau Cymru)		x	Cais
Dealltwriaeth a phrofiad eang o weithio o fewn un o'n grwpiau buddiolwyr craidd: Blynyddoedd cynnar, plant a phobl ifanc dan anfantais, oedolion hŷn mewn gofal iechyd, gofal preswyl neu yn y gymuned neu weithluoedd llinell flaen mewn addysg, gofal iechyd neu ofal cymdeithasol oedolion.	x		Cais. Prawf a Chyfweliad
Cyffredinol			
Egnïol, creadigol, entrepreneuriaidd ac ymroddedig	x		Cyfweliad
Wedi'i symbylu, yn gallu gosod blaenoriaethau, cyflawni targedau a gweithio'n unigol tra'n gweithredu fel rhan o dîm ehangach.	x		Cais a Chyfweliad
Parodrwydd i deithio ar draws Cymru ac ar draws y DU.	x		Cais
Trwydded yrru a char		x	Cais
Uwch dystysgrif Datgelu DBS (Bydd LMN yn trefnu gwiriad os nad oes un ar gael) cyn cadarnhau unrhyw gynnig		x	Cais